Papur 4

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

31 Ionawr 2024

Annwyl Mark,

Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad wedi bod yn ystyried ac yn adrodd ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru a osodwyd gerbron y Senedd mewn perthynas â Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol Llywodraeth y DU (y Bil).

Yn ein cyfarfod ar 22 Ionawr 2024, lle y gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3 ar y Bil, gwnaethom drafod y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â marchnata uniongyrchol at ddibenion ymgysylltu democrataidd (cymal 114 yn y Bil fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin). Yn ôl a ddeallwn, mae Llywodraeth y DU o'r farn nad yw'r cymal hwn yn ymwneud â'r broses cydsyniad deddfwriaethol yng Nghymru, ac nid yw memoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Senedd hyd yma wedi cynnwys cyfeiriad at y cymal hwn fel darpariaeth berthnasol.

Gwnaethom hefyd drafod eitem yn y Financial Times a gyfeiriodd at lythyr gan y Gweinidog Data a Seilwaith Digidol ar y pryd, Syr John Whittingdale, at Aelod o Senedd y DU a oedd yn cadarnhau, yn ôl y sôn, y gallai Llywodraeth y DU yn y dyfodol 'ddiffodd' dros dro rhai rheolau marchnata uniongyrchol yn y cyfnod cyn etholiad.

Oherwydd ein hystyriaeth o'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol a'n diddordeb ehangach mewn materion cyfansoddiadol, byddem yn croesawu cael eich barn a rhagor o fanylion ynghylch nifer o faterion:

1. Beth yw asesiad Llywodraeth Cymru o gymal 114 yn ymwneud â Rheol Sefydlog 29 (os o gwbl)?

2. A yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw asesiad o effaith bosibl y ddarpariaeth ar etholiadau datganoledig Cymru?

3. Mae cymal 114(5) o'r Bil yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn gwneud rheoliadau o dan y pŵer hwn, ymgynghori â'r Comisiynydd Gwybodaeth ac unrhyw bersonau eraill y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn eu hystyried eu bod yn briodol. A yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch a ymgynghorid â Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag unrhyw effaith ar y defnydd o ddata sy'n ymwneud ag etholiadau datganoledig Cymru gan reoliadau a wneir o dan gymal 114?

4. A yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw gynllun gan Lywodraeth y DU i 'ddiffodd' rheolau marchnata uniongyrchol cyn etholiad cyffredinol yn y DU?

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ateb erbyn 14 Chwefror 2024.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, ac at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd